# CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

## CYFANSODDIAD

### 1. *Enw'r Gymdeithas*

Enw'r Gymdeithas fydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (yma, 'y Gymdeithas' fydd hi'n cael ei galw o hyn ymlaen)

### 2. *Amcanion y Gymdeithas*

(i) darparu fforwm yng Nghymru ar gyfer y CYSAGau i drafod materion o bwys iddynt, ac i ddwyn achosion i sylw cyrff eraill pan fo gofyn;

(ii) hwyluso cydweithredu rhwng Awdurdodau Lleol, eu CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur cytûn, i fynd ar drywydd diddordebau cyffredin ynglŷn â datblygu cwricwlwm addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;

(iii) helpu'r CYSAGau i gyflawni eu gorchwylion trwy rannu profiad ac arbenigedd;

(iv) ymgymryd ag unrhyw weithgareddau eraill a allai fod o fudd i addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

### 3. *Aelodaeth a dyletswyddau*

(i) Mae pob un o GYSAGau Cymru yn gymwys i fod yn aelod o'r Gymdeithas.

(ii) Bydd pob CYSAG yn cael ei wahodd i basio penderfyniad yn argymell bod ei ALl yn cymeradwyo ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru.

(iii) Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

(iv) Gall cyfarfodydd arbennig o'r Gymdeithas gael eu cynnal ar alwad y Cadeirydd neu ar gais aelod-GYSAG. Bydd modd i'r Cadeirydd, wedi ymgynghori â'r swyddogion eraill, newid y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Gymdeithas mewn achos brys.

(v) Bydd hawl gan bob aelod-GYSAG i anfon pedwar cynrychiolydd a all gynnwys cynrychiolaeth broffesiynol, i gyfarfodydd. Pan mae CYSAG yn cynnig Swyddog neu Aelod i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, mae'n rhaid i'r sawl a gynigir fod yn un o'r pedwar cynrychiolydd y mae'r CYSAG yn eu penodi i'w gynrychioli mewn cyfarfod o'r Gymdeithas. Mewn unrhyw gyfarfod lle gelwir am bleidlais, bydd gan bob CYSAG hawl i un bleidlais.

(vi) Bydd cyfarfod o'r Gymdeithas yn cael ei ystyried yn un â chworwm iddo pan na fo dim llai na thraean o'r aelod-GYSAGau yn cael eu cynrychioli.

(vii) Os bydd bwriad o gwbl i newid y cyfansoddiad bydd raid rhoi gwybod i'r CYSAGau o leiaf bedwar mis cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a fydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newid felly. Cynhelir y CCB fel rhan o gyfarfod haf y Gymdeithas.

(viii) Os bydd yn dymuno, gall y Gymdeithas wahodd cyrff i gael swyddogaeth sylwedydd yn y Gymdeithas. Dim ond os bydd y Cadeirydd yn caniatáu y caiff sylwedyddion o'r fath ddweud gair.

(ix) Bydd hawl gan unrhyw aelodau o'r CYSAG sydd â'u ALl neu Gyngor yr un sy'n croesawu'r cyfarfod hwnnw i fod yno fel sylwedyddion.

4. *Y Pwyllgor Gwaith*

(i) Fe fydd Pwyllgor Gwaith, a fydd yn cynnwys y canlynol:
a) Y Swyddogion, sef
Cadeirydd
Is Gadeirydd
Ysgrifennydd
Ysgrifennydd Cynorthwyol
Trysorydd
b) chwe aelod a etholwyd o aelod-GYSAGau ar wahân i'r rheiny y darparwyd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd ohonynt
c) Y cyn-Gadeirydd diweddaraf
d) Y cyn-Ysgrifennydd diweddaraf
e) Cynrychiolydd o PYCAG
f) Cynrychiolydd CCYSAGauC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr
g) Cynrychiolydd CCYSAGauC ar EFTRE
h) cynrychiolydd CCYSAGauC ar Rwydwaith Rhyng-ffydd y DU

(ii) Bydd swyddogion y Gymdeithas (Cadeirydd, Is Gadeirydd, Ysgrifennydd, Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd) yn cael eu hethol a / neu eu hail-ethol mewn Cyfarfod Blynyddol. Ni chaiff un CYSAG ddarparu mwy nag un swyddog mewn unrhyw un flwyddyn. Ni chaiff Cadeirydd ddal y swydd am fwy na dwy flynedd yn olynol. Pan ddaw tymor y Cadeirydd yn y Gadair i ben bydd yr Is Gadeirydd yn dod yn Gadeirydd, yn amodol ar y gofyniad ym mharagraff (4iii). Gall y Cadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg yn ystod eu tymor a bydd yr Is Gadeirydd yn dod yn eu lle, fel byddai'n digwydd pan mae tymor y Cadeirydd yn dod i ben. Pan mae'r Is Gadeirydd yn cymryd swydd y Cadeirydd mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd Blwyddyn 1 tymor y Cadeirydd yn y swydd yn dechrau hyd nes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

(iii) Os nad yw swyddog bellach yn aelod mewn CYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith, bydd yn gorfod rhoi'r gorau i'w swydd ar unwaith. Bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le yn ystod y cyfarfod dilynol, a bydd yn gwasanaethu tan y CCB nesaf. Os oes angen llenwi'r swydd ar unwaith bydd hawl gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penodiad dros dro a fydd mewn grym tan gyfarfod nesaf y Gymdeithas.

(iv) Ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, ni chaiff yr un CYSAG gyflenwi mwy nag un aelod o'r pwyllgor gwaith ar unrhyw adeg.

Bydd Aelodau Etholedig y Pwyllgor Gwaith, yn amodol ar ofynion paragraffau 4(iii) a 4(v), yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, yn ôl trefn drwy'r hon y bydd dau ohonynt yn cwblhau eu cyfnod yn y swydd bob blwyddyn.

(v) Os nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith bellach yn aelod o GYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd hawl gan y CYSAG a ddarparodd y person hwn, i enwebu aelod arall i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwasanaethu tan ddiwedd y tymor yr etholwyd yr aelod gwreiddiol ar ei gyfer.

(vi) Bydd penodiadau fel Cynrychiolwyr CCYSAGauC ar a) Cyngor AG Cymru a Lloegr; b) EFTRE; ac c) Cyngor Rhyng-ffydd y DU yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ar ôl gofyn am fynegiannau o ddiddordeb gan aelodau CYSAGau mewn cysylltiad â CCYSAGauC.

(vii) Dim ond pwerau gweithredol sydd wedi eu dirprwyo iddo mewn cyfarfod o'r Gymdeithas fydd gan y Pwyllgor Gwaith. Pump fydd yn gwneud cworwm a bydd pleidlais fwyafrif yn sefyll.

### *5. Y Trefniadau*

(i) Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd yr Is Gadeirydd yn eistedd yn y gadair. Fel arall, gorchwyl gyntaf y cyfarfod fydd ethol aelod i'r Gadair ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Sut bynnag, os bydd y Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod, bydd yr aelod sydd yn y Gadair yn symud ar ôl i'r eitem o dan sylw ddod i ben.

(ii) (a) Bydd y Cadeirydd yn dwyn cynnig gerbron "bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu llofnodi fel rhai cywir".

(b) Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb. Cyn gynted â bod unrhyw fater am gywirdeb wedi cael ei ddatrys, caiff y Cadeirydd ei awdurdodi i lofnodi'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

(iii) Bydd modd i unrhyw aelod-GYSAG ofyn i'r Cadeirydd gynnwys eitem ar Agenda cyfarfodydd y Gymdeithas heb fod gofyn cael eilydd. Mae'n rhaid i geisiadau i gynnwys eitemau ar yr Agenda gael eu gwneud o leiaf bedair wythnos cyn unrhyw gyfarfod. Bydd raid sicrhau eilydd ar gyfer unrhyw gynigiad sy'n cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod.

(iv) Os digwydd bod rhaid cael pleidleisio yn achos unrhyw gynigiad bydd gan bob un CYSAG sy'n aelod un bleidlais a gwneir penderfyniad trwy fwyafrif syml. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw heblaw yn achos ethol Is Gadeirydd neu aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

(v) Bydd y cyfarfodydd a'r gohebu'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.

(vi) Bydd modd i'r Cadeirydd ychwanegu unrhyw faterion eraill ar yr amod bod rhybudd wedi cael ei roi ynglŷn â nhw.

(vii) Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i wahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw berson neu bersonau sydd, yn ei farn ef/hi, â chyfraniad i'w wneud at Agenda'r cyfarfod hwnnw. Bydd gan berson gwahoddedig o'r fath yr hawl i siarad a chael

gwrandawiad, ond ni chaiff yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater y gelwir am bleidlais arno.

## *6. Tanysgrifiad a Chyllid*

(i) Y flwyddyn ariannol fydd blwyddyn ariannol y Gymdeithas, h.y. o 1 Ebrill y flwyddyn honno hyd at 31 Mawrth y flwyddyn wedyn.

(ii) Bydd tanysgrifiad blynyddol a fydd yn cael ei bennu yn y Cyfarfod Blynyddol.

**COD YMARFER AR GYFER CYNNAL ETHOLIADAU**

Argymhellir y Cod Ymarfer canlynol ar gyfer cynnal etholiadau-:

(a) Gwahoddir enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn ystod tymor y gwanwyn bob blwyddyn. Bydd dyddiad cau derbyn yr enwebiadau gan GYSAGau yn cael ei gyhoeddi gan y Gymdeithas ar ddechrau tymor y gwanwyn. Dylai pawb sy'n cael eu henwebu ysgrifennu paragraff (tua 100 gair) amdanynt eu hunain.

(b) Mae'n rhaid i'r CYSAG sy'n gwneud yr enwebiad sicrhau fod y sawl a enwebwyd yn barod i wasanaethu.

(c) Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon rhestr o'r rhai a enwebwyd, ynghyd â'r paragraffau, i gyrraedd pob CYSAG yn gynnar yn nhymor yr haf fel bod pob CYSAG yn cael cyfle i ystyried yn ei gyfarfod haf sut i fwrw ei bleidlais.

(d) Pe digwydd bod dau neu fwy o unigolion yn derbyn nifer cyfartal o bleidleisiau mewn etholiad ar gyfer Is Gadeirydd neu'r Pwyllgor Gwaith, bydd y Cadeirydd yn penderfynu'r mater drwy dynnu “enw allan o het”. Cyhoeddir mai'r unigolyn y tynnwyd ei enw fydd yr ymgeisydd llwyddiannus.

(e) Os nad oes digon o bobl wedi cael eu henwebu gan GYSAGau cyn y Cyfarfod Blynyddol i lenwi seddi gwag ar y Pwyllgor Gwaith neu fel Is Gadeirydd, gwneir cais am enwebiadau o'r llawr. Dylai enwebiadau o'r fath gael eu cynnig a'u heilio yn ôl yr arfer. Os derbynnir mwy na'r nifer angenrheidiol o enwebiadau o'r llawr, cynhelir pleidlais ar yr enwebiadau hynny. Ni fydd y bleidlais hon yn cynnwys unrhyw un a enwebwyd cyn y Cyfarfod Blynyddol, bydd yr unigolyn/unigolion hynny yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith cyn y gwahoddir enwebiadau am unrhyw le gwag.

Diwygiwyd CCB 2018

# WALES ASSOCIATION OF SACREs

## CONSTITUTION

### 1. *The name of the Association*

The name of the Association shall be the Wales Association of SACREs (hereinafter called 'the Association')

### 2. *The Aims of the Association*

(i)to provide a forum in Wales for SACREs to discuss concerns and as necessary make representations to other bodies;

(ii) to enable co-operation between LAs and their SACREs and Agreed Syllabus Conferences in pursuing common interests in the development of the religious education curriculum and collective worship;

(iii) to assist SACREs in fulfilling their responsibilities by the sharing of experience and expertise;

(iv) to undertake any other activities which may benefit religious education and collective worship in Wales.

### 3. *Membership and duties*

(i) Each SACRE in Wales is eligible to be a member of the Association.

(ii) Each SACRE shall be invited to pass a resolution recommending its LA to support membership of the Wales Association of SACREs.

(iii) The Association shall meet three times annually.

(iv) Extraordinary meetings of the Association may be called by the Chairperson or at the request of a member SACRE. The Chairperson, in consultation with the officers, may alter arrangements for meetings of the Association in an emergency.

(v) Each member SACRE shall be entitled to send up to four representatives, which may include professional representation, to meetings. Where a SACRE provides an Officer or a Member of the WASACRE Executive the person so provided must be one of the four representatives that that SACRE appoints to represent it at a

WASACRE meeting.  At any meeting at which a vote is called for each SACRE will be entitled to one vote.

(vi) A meeting of the Association shall be deemed to be quorate when not fewer than one third of member SACREs are represented.

(vii) Any proposal to amend the Constitution shall be communicated to SACREs at least four months prior to the AGM at which any such amendment will be considered. The AGM shall be held as part of the Association's summer meeting.

(viii) The Association can if it so wishes invite bodies to have observer status in the Association. Such observers can only speak with the permission of the Chairperson.

(ix) At a meeting of the association, any members of the SACRE, whose LA or Council is hosting the meeting, shall be entitled to attend the meeting as observers.

4. *Executive Committee*

(i) There shall be an Executive Committee, which shall consist of the following:
a) The Officers, who shall be
Chairperson
Vice Chairperson
Secretary
Assistant Secretary
Treasurer
b) six members elected from member SACREs other than those from which the Chairperson and Vice Chairperson have been provided
c) The immediate past Chairperson
d) The immediate past Secretary
e) A representative of NAPfRE
f) WASACRE's representative to the RE Council of England and Wales
g) WASACRE's representative to EFTRE
h) WASACRE's representative to the Inter Faith Network for the UK

(ii) Officers of the Association (Chairperson, Vice-chairperson, Secretary, Assistant Secretary, and Treasurer) shall be elected and / or re-elected at an AGM. No one SACRE may provide more than one officer in any one year. No one Chairperson may hold office for more than two consecutive years. When a Chairperson ceases to hold that office the Vice Chairperson shall succeed to it, subject to the requirement in para. (4iii). The Chairperson may resign their office at any time during their tenure of office to be replaced by the Vice Chairperson as would be the case when the Chairperson completes their term of office. When the Vice Chairperson assumes the office of Chairperson under such circumstances Year 1 of the Chairperson's term of office shall not begin until the next AGM.

(iii) If an officer is no longer a member of, or associated with, a SACRE he or she shall cease to hold that office immediately. A replacement will be appointed at the next meeting and will serve until the next AGM. If there is urgent need for a replacement the Executive Committee is empowered to make an appointment which will be effective until the next meeting of the Association

(iv) With the exception of the Secretary, Assistant Secretary and Treasurer no one SACRE may provide more than one member of the executive at any one time. Elected Members of the Executive, subject to the requirements of para 4(iii) and 4(v) shall serve for a period of three years, according to a rota whereby two of their number shall complete their period of office each year.

(v) If a member of the Executive is no longer a member of, or associated with, a SACRE, he or she will cease to be a member of the Executive. The SACRE which provided such a person will be entitled to nominate a replacement member of the Executive, who will serve until the end of the term for which the replaced member was originally elected.

(vi) Appointments as WASACRE's Representatives on a) The RE Council of England and Wales; b) EFTRE, and c) Inter Faith Council for the UK shall be made by the Executive after seeking expressions of interest from members of SACREs in association with WASACRE.

(vii) The Executive Committee will only have executive powers which have been delegated to them at a meeting of the Association. The quorum shall be five and the majority vote will count.

### *5. Procedures*

(i) In the absence of the Chairperson, the Vice Chairperson, if present, shall take the Chair. Otherwise the first business of the meeting shall be to elect a member to the Chair for that meeting. However, if the Chairperson or Vice Chairperson arrives during the meeting, the Vice Chairperson, or the member in the Chair shall relinquish it once the item of business in hand has been completed.

(ii) (a) The Chairperson will move "that the minutes of the last meeting be signed as an accurate record".

(b)The only part of the minutes which can be discussed is their accuracy. As soon as any question about accuracy has been dealt with the Chairperson is authorized to sign the minutes as an accurate record of that meeting.

(iii) Any member SACRE may request the Chairperson to include an item on the Agenda for meetings of the association without the requirement for it to be seconded. Requests for items for inclusion on the agenda must be made at least four weeks in advance of any meeting. Any motion moved at the meeting must be seconded.

(iv) In the event of a vote being required on any proposal each member SACRE shall have one vote and a decision reached by a simple majority. The Chairperson will have a casting vote other than at an election of the Vice Chairperson or a member of the Executive.

(v) Meetings and correspondence shall be conducted bilingually.

(vi) Any other matters, of which notice has been given, may be added by the Chairperson.

(vii) The Chairperson shall have the right to invite to a meeting of the Executive Committee such a person or persons who in his/her opinion has a contribution to make towards the Agenda of that meeting. Such an invitee shall have the right to speak and be heard, but shall not have the right to vote on any matter on which a vote is called for.

### *6. Subscription and Finance*

(i) The Association's financial year shall be the financial year, i.e. it shall run from April 1st in any year until March 31st the following year.

(ii) There shall be an annual subscription to be determined at the AGM.

**CODE OF PRACTICE FOR THE CONDUCT OF ELECTIONS**

The following Code of Practice is recommended for the conduct of elections-:

(a) Nominations for election to the WASACRE Executive Committee shall be invited during the spring term each year. The date by which nominations should be received from SACREs will be advised by WASACRE at the beginning of the spring term. All persons nominated should supply a paragraph (some 100 words) about themselves.

(b) The SACRE making a nomination must ensure that the person nominated is willing to serve.

(c) The Secretary shall send a list of those nominated, together with the paragraphs provided, to reach each SACRE early in the summer term to allow opportunity for each SACRE to consider at its summer meeting how to cast its vote.

(d) In the event of two or more persons receiving an equal number of votes at an election for the Vice Chairperson or the Executive Committee, the Chairperson shall decide the matter by drawing a “name out of the hat”. The person whose name is so drawn shall be declared the successful candidate.

(e) If there are insufficient persons nominated by SACREs prior to the AGM to fill vacancies on the Executive Committee or Vice Chairperson, nominations shall be sought from the floor. Such nominations shall be proposed and seconded as is customary. If more than the required number of nominations is received from the floor a ballot shall be held of those persons so nominated. Such a ballot will not Include any person nominated before the AGM, such a person(s) shall be appointed to the Executive Committee before other nominations for any vacancy are invited.

Revised AGM 2018